**COFNODION PWYLLGOR ARIANNOL CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH A DROS ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH 12.01.26**

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Gordon Howie, Mark Lewis, Ceri Griffiths, Cyng. Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

**PRESENNOL**

Cyng. Christopher Braithwaite (Cadeirydd), James Maxwell (Is-Gadeirydd), Edwina Evans, Wendy Williams, Martin Hughes, Simon Turner, Giles Bentham, Reg Chapman, Tegid John a'r Cyng. Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd).

'Roedd 2 aelod o'r cyhoedd yn bresennol dros zoom ag 1 yn bresennol yn yr ystafell

**COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Rhagfyr 1af 2025 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Datganodd y Cyng. Giles Bentham ei fod ddim yn derbyn y cofnodion fel rhai cywir oherwydd bod tri aelod o'r cyhoedd yn bresennol dros zoom am bod Chris Travis yn y cyfarfod diwethaf dros zoom a nid oedd wedi cael ei gynnwys yn y cofnodion. 'Roedd yr Aelodau eraill i gyd yn anghytuno gyda hyn oherwydd ddim ond dau aelod o'r cyhoedd oedd yn bresennol dros zoom a nid tri a nid oedd enw Chris Travis wedi ymddangos ar y sgri o gwbwl.

**MATERION YN CODI**

**HAL - CIC**

Derbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Reg Chapman ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â HAL

1 Mae'r cynigion ar gyfer trosglwyddo HAL i CIC, sy'n eiddo llwyr i Gyngor Cymuned Harlech, wedi'u hysgogi ychydig oherwydd salwch yr arbenigwr sy'n gweithio i'r Cyngor.
2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ariannu cost y trosglwyddo, gan greu teitl heb ei amau ar y safle cyfan a chostau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â dewis y darparwr ariannol ar gyfer y datblygiad.
3 Gyda'r Is-Gadeirydd, rwy'n cwrdd â hwy yr wythnos hon, ar y safle, i alluogi iddynt ddeall cymhlethdod y safle yn uniongyrchol.
4 Mae cyfarfod wedi'i drefnu yr wythnos ganlynol gyda un o buddsoddwyr y prosiect posibl.
5 Mae prif amcanion y CIC yn adlewyrchu rhan newidiol Awdurdodau Lleol a'r sefyllfa ariannol llym maent yn ei wynebu. Rwyf wedi ychwanegu'r egwyddorion ar gyfer ei ddatblygiad.

**HARLECH CYMUNEDOL CYF**

**AMCANION A NODAU**

I gefnogi a buddsoddi yn nyfodol a lles Cymuned Harlech.
Datblygu cynllun busnes cynhwysfawr a fydd yn caniatáu i'r CIC dyfu a amlochgrynnu wrth i gyfleoedd ddod sydd a all elwa ar y bobl leol.
Rheoli asedau'r gymuned a defnyddio unrhyw incwm ohonynt er lles y gymuned.
Ceisio cyllid a chreu cyfleoedd i bobl leol wella eu lles economaidd a chymdeithasol.
Datblygu partneriaethau gyda phartneriaid cymdeithasol eraill er gwellhad pobl leol.
Derbyn y tir ac asedau eraill gan Harlech a Ardudwy Leisure a gweithio gyda phobl eraill i sicrhau datblygiad sydd o fudd i'r gymuned.
Ceisio datblygu'r economi leol drwy wella'r cynnyrch twristiaeth a datblygu rhwydwaith cyfathrebu a thrafnidiaeth yr ardal.
Ystyried mantais creu cyd-gwmnïau lleol ar gyfer prynu nwyddau megis ynni a nwyddau tebyg lle ceir budd cymdeithasol bydd yn lleihau costau i bobl leol.
Bydd cyfathrebu bob amser yn cael ei wneud yn iaith o'ch dewis

8.................................................Cadeirydd

**Panel Cyfrifiad Annibynnol**

Adroddodd y Clerc bod yn rhaid arwyddo ffurflen gan bob Cynghorydd ynglyn ar uchod eto eleni. Mae angen rhestru bob rheol sydd yn cael ei mabwysiadu yn cofnodion y Cyngor ag os bydd rheol taliadau ar gyfer costau yn cael ei mabwysiadu bydd angen i'r Cynghorwyr sydd DDIM am hawlio costau arwyddo ffurflen yn datgan hyn. Ar ol trafodaeth cytunwyd i fabwysiadu y rheol taliadau ar gyfer costau eto eleni a cytunwyd bod pawb oedd eisiau hawlio costau yn gwneud hynny ond ei fod yn bwysig bod pawb yn ei anfon yn nol i'r Clerc ar ol ei cwblhau. Penderfynnodd rhai Aelodau i dderbyn yr lwfans a phenderfynnodd rhai eraill i beidio a derbyn y lwfans,

**Cynllun Cyllideb**

'Roedd y Clerc wedi dosbarthu copiau o'r uchod yn barod i bob Aelod yn dangos y gwahaniaethau yn y gwariant a oedd wedi cael ei wneud i fyny hyd at y 31ain o Ragfyr 2025 ers dechrau Ebrill 2025 a beth oedd wedi cael ei glustnodi yn y cynllun cyllideb hyd at diwedd mis Rhagfyr i bob aelod oedd yn bresennol. Adroddwyd bod £51,304.49 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £69,418.51 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn. Aeth yr aelodau drwy y gwahaniaethau yn y gwariant a oedd wedi cael ei wneud a beth oedd i lawr ar y cynllun cyllideb fesul un. Cytunwyd i dderbyn yr uchod.

**Polisi Asesiad Risg Ariannol y Cyngor**

'Roedd y Clerc wedi dosbarthu copiau o'r uchod i bob Aelod yn barod a gafodd bob eitem a oedd arno ei drafod arwahan. Penderfynwyd derbyn y polisi hwn a'i rhoi ar yr agenda yn chwarterol a newid y golofn diwethaf i chwarterol.

**Prosiectau y Cyngor 2026/27**

Ni chafodd yr eitem hwn ei drafod.

**Cyllideb y Cyngor am y flwyddyn 2026/27 (draft)**

'Roedd y Clerc wedi dosbarthu gopiau o gyfrifon y Cyngor i fyny at y 31ain o Ragfyr 2025 i bob aelod er mwyn iddynt gael gweld beth oedd y sefyllfa ariannol. Fe gafwyd trafodaeth ynlgyn ar mater uchod a penderfynwyd fod amcangyfrif o'r gwariant canlynol gan y Cyngor am y flwyddyn ariannol nesa –

| | |
|---|---|
| Yswirant y Cyngor | 2,500 |
| Cyflog y Clerc | 1,764 |
| Costau y Clerc | 1,071 |
| Costau swyddfa y Clerc | 750 |
| Treth ar gyflog y Clerc | 440 |
| Cyfrifydd y Clerc | 228 |
| Trwydded Microsoft | 105 |
| Trwydded Zoom | 156 |
| Un Llais Cymru | 370 |
| Gwefan y Cyngor | 2,000 |
| Hyfforddiant i Gynghorwyr | 2,000 |
| Lwfans Cynghorwyr | 1,872 |
| Cyfieithydd | 1,700 |
| Llogi ystafell bwyllgor | 500 |
| Cyfraniadau | 2,000 |
| Hamdden Harlech ac Ardudwy | 7,500 |
| pwyllgor neuadd Goffa | 2,000 |
| pwyllgor Hen Lyfrgell | 2,000 |

| | |
|---|---|
| Cyfeillion Ysgol Tanycastell | 3,000 |
| Cylch Meithrin Harlech | 2,000 |
| archwilwyr allanol | 1,000 |
| archwilwyr mewnol | 500 |
| Ymgysylltu ar gymuned gan gynnwys gwasanaeth ieuenctid | 10,000 |
| Cyfreithwyr | 5,000 |
| amrywiol | 1,000 |
| costau fynwent | 2,000 |
| torri gwair y mynwentydd | 2,400 |
| torri gwair y llwybrau | 2,500 |
| torri gwair cae chwarae Brenin Sior | 5,000 |
| Llwybr Natur Bron y Graig | 20,000 |
| Chwyn clymydog japaniaidd | 350 |
| gweithgareddau cymdeithasol | 15,000 |
| Cadw Eitemau | 1,300 |
| Llawr Hen Ladd-dy | 2,500 |
| gwagio biniau parciau chwarae | 1,200 |
| cynnal a chadw y cwrt tenis | 1,500 |
| treth cwrt tennis | 120 |
| cynnal a chadw y parciau chwarae | 35,000 |
| rhandiroedd | 4,000 |
| Dwr Cymru (rhandiroedd) | 130 |
| ffioedd tir Penygraig | 1,000 |
| archwiliad parciau chwarae | 500 |
| meinciau | 2,000 |
| Cyfraniad i gadw toiledau cyhoeddus yn agored | 16,320 |
| cynnal a chadw toiled ger y Neuadd Goffa | 3,500 |
| Dwr Cymru (toiledau) | 770 |
| llochesi bws | 10,000 |
| costau banc | 10 |
| | **Cyfanswm £178,556** |

Cynhaliwyd trafodaeth am y gyllideb ar gyfer 2026/2027, yn enwedig ynglŷn â chyflog y Clerc. Cytunwyd gan bawb i ddiwygio'r gyllideb i £7,500. Cytunwyd mai dim ond fel diwygio gyllideb y byddai hyn, dim diwygio i'r presept.
**Nid oedd y Clerc na aelodau o'r cyhoedd yn bresennol pan gafodd y mater hwn ei drafod.**

**Precept y Cyngor am y flwyddyn 2026/27**

Fe dderbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd ynglyn ar mater uchod. Ar ol trafod y gyllideb a rhagweld beth fyddai gwariant y Cyngor am y flwyddyn ariannol nesa cytunwyd i adael y precept ar £85,000. 'Roedd y Cyng. James Maxwell, Reg Chapman, Simon Turner, Wendy Williams, Giles Bentham ag Edwina Evans o blaid hyn, 'roedd y Cyng. Martin Hughes yn atal ei bleidlais ag 'roedd y Cyng. Christopher Braithwaite yn erbyn.

**ADRODDIAD Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL**

Adroddodd y Trysorydd bod £26,193.01 yn y banc, £115,384.76 yn y cyfrif wrth gefn.

**Anfonebau angen eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

Cyllid a Thollad - £110.00 – treth ar gyflog y Clerc
Mr. Phil Price - £440.00 - gwaith IT

Mr. M. J. Kerr - £580.00 - agor bedd y diweddar Mr. Peter Jones
Brown & Wolfe - £1,920.00 - cynllunio gwefan a'I adeiladu
Mr. Meirion Evans - £6,240.00 – gwaith ar Penllech ag wrth yr Eglwys
Woodland Trust £1.00 - trwydded arwydd yn Coed Llechwedd

Gofynodd y Cyng. Simon Turner am ganiatad yr Aelodau i archebu mwy o oleuadau nadolig i fyny i gyfanswm o £520 (gwerth grant Magnox) a cytunodd pawb i hyn gael ei wneud.

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan, y Cyng. James Maxwell a wnaeth y Cyng. Wendy Williams gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

**Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf**

Magnox - £520.00 – grant tuag at archebu goleuadau Nadolig
Cyllid a Thollad - £725.31 – ad-daliad TAW

**Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

Catrin Soraya Williams – Dim - gwasanaeth cyfieithu
Defib Store Ltd - £154.80 – pad I defib ger Capel Engedi (talwyd 16/12/25)
Blachere Illuminations - £527.10 - goleuadau nadolig (talwyd 15/1/26)

**MATERION A DRAFODWYD AR OL Y PWYLLGOR CYLLID**

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Cais ôl-weithredol i godi storfa boncyffion pren a beiciau, sied a phorth ceir
Ivy House, Harlech (NP5/61/L433A)**

Cefnogi y cais hwn.

**Caniatâd Adeilad Rhestredig i amnewid ffenestri a drysau sydd wedi'u difrodi gan storm gyda ffenestri a drysau alwminiwm gwydr-dwbl newydd i gyd-fynd â'r rhai presennol.
Coleg Harlech, Harlech (NP5/61/LB3Z)**

Cefnogi y cais hwn.

**Tystysgrif Defnydd Cyfreithiol (Presennol) i ddefnyddio'r fflat ar y llawr cyntaf fel Dosbarth Defnydd C5 - Tai annedd a ddefnyddir heblaw fel unig breswylfa neu brif breswylfa ac a feddiannwyd am 183 diwrnod neu lai Fflat Plas, Siop Spar, Stryd Fawr, Harlech (NP5/61/LULB280E)**

Cefnogi y cais hwn.

**Diwygiad Ansylweddol i Ganiatâd Cynllunio NP5/61/PIAW466 dyddiedig 19/01/2007 i godi uchder y garej i gynnwys ystafell wely ychwanegol uwchben Llain 5, Cae Main, Hwyfa'r Nant, Harlech (NP5/61/466A)**

Cefnogi y cais hwn.

**GOHEBIAETH**

**Llywodraeth Cymru**

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor mae y swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Gwariant Adran 137 y Terfyn ar gyfer 2026/27 fydd £11.60 yr etholwr. Adroddodd y Clerc y rhif o diweddaraf o etholwyr sydd genni yw 1,136 ag felly mae gan y Cyngor hawl i gyfranu hyd at £12,609.60 i gyrff allanol.

**Un Llais Cymru**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal ar y 14eg o'r mis hwn.

**Mr a Mrs Ratcliffe**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn gofyn am gyfraniad gan y Cyngor tuag at redeg y clwb sgits rolio. Cytunwyd I adael y mater hwn a'I drafod gyda'r ceisiadau ariannol eraill yn mis Mawrth.

**Chapters Gymnastics**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn gofyn am gyfraniad gan y Cyngor tuag at redeg y clwb gymnasteg. Cytunwyd I adael y mater hwn a'I drafod gyda'r ceisiadau ariannol eraill yn mis Mawrth.

**Mrs Myfanwy Jones**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn diolch i'r Cyngor am y goleuadau nadolig bendigedig ag hefyd yn diolch am y gwellianau sydd wedi cael eu cario allan ger cae chwarae Llyn y Felin.

**Guthrie Jones & Jones**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Mr. Dylan Edwards, Cyfreithiwr o'r cwmni uchod yn gofyn i ddau fynd i'r swyddfa yn y Bala i lofnodi dogfennau yng ngwydd tyst er mwyn cwblhau pryniant tir Penygraig. Cytunwyd i ofyn a fyddai yn bosib arwyddo y dogfennau drwy Doc E.

**Ms Paula Ireland**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ar ran tenantiad y rhandiroedd yn gofyn a fyddai modd nawr eu bod wedi ffurfio pwyllgor swyddogol ag hefo cyfrif banc i'r Cyngor drosglwyddo yr arian yr oeddynt wedi ei glustnodi ar gyfer y rhandiroedd yn y gyllideb y flwyddyn diwethaf i gyfrif y rhandiroedd. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i aelodau is-bwyllgor ariannol yn barod. Cytunwyd bod angen gofyn am esboniad clir o'r costau sydd yn mynd i gael ei wneud ganddynt yn ystod y flwyddyn ariannol hon a'i gwahodd i gyfarfod nesa y Cyngor erbyn 7.30 o'r gloch.

**ARWYDDWYD.................................................**Cadeirydd

**DYDDIAD.........................................................**